Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Ffordd Dyffryn
# Ffordd Dyffryn
# Llandudno
# Conwy
# LL30 2LZ

# Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Ffordd Dyffryn

Mae Ysgol Ffordd Dyffryn yn Llandudno, yn awdurdod lleol Conwy.  Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r ardal gyfagos, ond daw ychydig ddisgyblion o rannau eraill o'r dref. Mae'n darparu addysg i 176 o ddisgyblion tair i 11 oed, gan gynnwys 18 o blant meithrin sy'n mynychu yn y prynhawn yn unig.

Mae'r cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim tua 44%.  Mae'r ffigur hwn yn uwch o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 19%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan oddeutu 23% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd gerllaw'r cyfartaledd, sef 21%, ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Ar safle'r ysgol, lleolir canolfan adnoddau'r cyfnod sylfaen ar gyfer disgyblion o bob rhan o'r awdurdod lleol sydd ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol, ac mae canolfan adnoddau cyfnod allweddol 2 yno hefyd i ddisgyblion o bob rhan o'r sir sydd ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig.  Saesneg yw iaith y cartref i bron pob un o'r plant.

Yn Hydref 2012 yr arolygwyd yr ysgol ddiwethaf.  Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol hon yn angerddol am les ei holl ddisgyblion ac mae natur gynhwysol yr ysgol yn treiddio i bob agwedd ar ei gwaith. Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, a bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi, yn Ysgol Ffordd Dyffryn. Mae ymddygiad yn rhagorol ac mae awyrgylch hynod ofalgar a chynhwysol sy'n cefnogi anghenion personol ac emosiynol disgyblion yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae'r ysgol yn elwa o arweinyddiaeth hynod gref. Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir a chryf i'r ysgol, sy'n gosod lles a chynhwysiant yr holl blant wrth wraidd popeth a wna. Mae arweinwyr yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus ar draws cymuned gyfan yr ysgol. Mae staff yn cael hyfforddiant perthnasol yn rheolaidd ac mae pob un ohonynt yn ymdrechu'n barhaus i wella a datblygu'u medrau arwain.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio’u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod pob athro yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dda yn gyson i helpu disgyblion i wella’u gwaith

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael ag argymhellion yr arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i’w lledaenu ar wefan Estyn, ar waith yr ysgol yn ymwneud â sut mae arweinyddiaeth hynod effeithiol yn galluogi staff ar bob lefel i gael effaith gadarnhaol ar les a safonau disgyblion.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Gydag amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac maent yn cyflawni safonau da ym mhob agwedd ar eu dysgu. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rheiny yn y canolfannau adnoddau, yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau unigol.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd. Maent yn talu sylw yn y dosbarth ac yn dangos parch tuag at ei gilydd wrth drafod eu gwaith neu wrando ar eu safbwyntiau ei gilydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'u medrau siarad yn dda ac yn mynegi'u barn yn hyderus ac yn glir o oed cynnar. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn rhagweld ac yn trafod beth sy'n digwydd i iâ mewn dŵr oer a dŵr poeth. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn ymateb yn briodol i amrywiaeth o gyfarwyddiadau a roddir yn Gymraeg ac maent yn gofyn ac ateb cwestiynau syml yn hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnal sgwrs yn Gymraeg gyda chymorth, gan ymestyn eu hatebion yn briodol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau darllen da. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen wybodaeth dda am seiniau llythrennau a dealltwriaeth sicr o atalnodi, sy'n eu helpu i ddarllen gyda mynegiant priodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y medrau hyn. Maent yn darllen testunau priodol yn rhugl ac yn gywir. Maent yn casglu ystyr o destunau ac yn siarad yn frwdfrydig am hoff lyfrau ac awduron. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhagweld beth allai ddigwydd mewn stori ac yn cyfiawnhau eu meddwl gyda rhesymau ystyriol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio geiriaduron a thesawrysau yn effeithiol i ymestyn eu geirfa a gwella'u gwaith ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen addas yn Gymraeg, gan ddarllen testunau syml gyda dealltwriaeth dda.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Yn y cyfnod sylfaen is, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth ffonig yn dda i ysgrifennu geiriau a brawddegau syml a mwy cymhleth yn effeithiol. Er enghraifft, wrth ddisgrifio'u dinosor, mae ychydig ohonynt yn defnyddio'r gair llysysydd yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae disgyblion mwy galluog yn ysgrifennu brawddegau diddorol yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn disgrifio'u gwyliau Nadolig yn faith, gan ddefnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir, ac yn defnyddio cysyllteiriau priodol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio atalnodi'n gywir ac yn rhoi cynnig argyhoeddiadol ar sillafu geiriau anghyfarwydd, mwy cymhleth. Maent yn ysgrifennu i safon uchel ar draws amrywiaeth o genres ac yn defnyddio paragraffau'n dda i osod ffiniau ar eu gwaith. Mae disgyblion mwy abl yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig sy'n fywiog ac yn ennyn diddordeb y darllenwr yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu paragraffau byr am eu ffrindiau, yn Gymraeg, yn cynnwys manylion addas.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y ddwy ganolfan adnoddau yn gwneud cynnydd da wrth wella'u medrau cymdeithasol a'u medrau cyfathrebu. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghanolfan cyfnod allweddol 2 yn nodi enghreifftiau o gymesuredd mewn deilen ac yn dewis geirfa briodol i ddisgrifio'r dail.

Yn y cyfnod sylfaen is, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau mathemategol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn gweithio'n frwdfrydig ar eu tasgau, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Maent yn datblygu medrau rhif da ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus i gasglu data ac i greu a dehongli graffiau syml am hoff greadur môr eu ffrindiau, er enghraifft. Defnyddiant eu medrau mathemategol yn dda ar draws y cwricwlwm lle y bo'n briodol, er enghraifft wrth ddefnyddio pren mesur i fesur deunydd yn gywir mewn centimetrau er mwyn creu model o gwch.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o briodweddau rhifau a chysyniadau mathemategol yn addas i'w hoedran. Weithiau, mae disgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth nodi afonydd Cymru ar fap o Gymru neu wrth greu siart bar i ddangos pa fag yw'r cryfaf. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cyflawni'r un safon uchel yn eu tasgau rhifedd mewn pynciau eraill ag y cyflawnant yn eu gwersi mathemateg.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Mae disgyblion meithrin a derbyn yn defnyddio amrywiaeth o gymwysiadau i helpu i ddatblygu'u medrau iaith, rhif a'u medrau echddygol manwl. Yn ystod y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn dechrau dysgu sut i gadw'u hunain yn ddiogel ar-lein trwy gyfarwyddiadau gan oedolion a phosteri defnyddiol, hawdd eu deall. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd ac offer TGCh yn effeithiol i ymestyn eu medrau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, defnyddiant eu gwybodaeth am hen dywysogion i greu cardiau chwarae gan ddefnyddio cronfa ddata. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o sut gall TGCh ategu'u dysgu a phwysigrwydd diogelwch ar-lein.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn rhagorol. Mae bron pob disgybl yn ymdawelu'n gyflym yn y dosbarth ac yn barod, yn awyddus ac yn eiddgar i ddysgu ar ddechrau gwersi. Maent yn dal ati i ganolbwyntio'n llwyddiannus wrth weithio ar dasgau unigol a thasgau grŵp. Mae disgyblion o'r ddwy ganolfan adnoddau yn rhannu'r agwedd gadarnhaol hon ac yn integreiddio'n rheolaidd ac yn bwrpasol gyda'u cymheiriaid prif ffrwd. Mae hyn wedi cael effaith hynod gadarnhaol ar agwedd pawb tuag at gynhwysiant a chydraddoldeb ac mae'n gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae disgyblion y canolfannau adnoddau yn gwneud cynnydd da wrth fynegi'u hemosiynau, datblygu'u medrau cymdeithasol a rheoli'u hymddygiad eu hunain. Mae'r agwedd hynod gadarnhaol hon at ddysgu yn deillio o ddealltwriaeth yr holl ddisgyblion o'r strategaethau gwrth-fwlio cadarn a sefydledig a gyflwynwyd gan staff a chynrychiolwyr y disgyblion, ynghyd â'r rhaglen hynod lwyddiannus, parodrwydd i ddysgu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gweithio'r un mor effeithiol mewn parau, grwpiau bychain ac mewn sefyllfaoedd dosbarth cyfan.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwd mewn cynllunio'u pynciau tymhorol. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn dangos llawer iawn o ddiddordeb yn eu gwaith ac ymrwymiad i'w gwaith. Maent yn cefnogi eu dysgu ei gilydd yn effeithiol iawn, fel ym Mlwyddyn 4 wrth ddefnyddio'u medrau mathemategol a chydweithredu i ddatrys problemau sy'n cynnwys heriau gwahanol gyda set o giwbiau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ddysgwyr annibynnol, hyderus sy'n herio'u hunain a'i gilydd i gyflawni llwyddiant.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hynod gwrtais a moesgar, ac maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol gyda'u cymheiriaid ac oedolion. Mae hyn yn cyfrannu at y perthnasoedd gweithio cadarn iawn sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion ar draws yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn croesawu ymwelwyr â'r ysgol yn hyderus ac yn barchus, ac maent yn awyddus i ryngweithio a phortreadu eu hysgol yn gadarnhaol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn rhyngweithio'n eithriadol o dda gyda'i gilydd yn ystod amser chwarae ac amser cinio, gan rannu'r ardaloedd sydd ar gael yn deg.

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hyderus bod staff yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau'n brydlon ac yn deg. Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth gref o sut i gadw'n ddiogel ar-lein, o oedran cynnar. Er enghraifft, mae hyd yn oed y disgyblion ieuengaf yn gwybod na ddylent rannu gwybodaeth bersonol, fel eu cyfrineiriau, gydag eraill.

Gydag amser, mae disgyblion yn ymgymryd ag amrywiaeth hynod effeithiol o rolau arwain sy'n datblygu'u medrau arwain yn llwyddiannus, trwy gymryd rhan yng ngrwpiau'r ysgol sy'n cynrychioli disgyblion. Er enghraifft, mae niferoedd cynyddol o ddisgyblion yn mwynhau ffordd iachach o fyw trwy gerdded a beicio i'r ysgol o ganlyniad i ymdrech y pwyllgor eco i hyrwyddo'r gweithgareddau hyn. Mae disgyblion yn defnyddio ymadroddion Cymraeg yn bwrpasol yn ystod amseroedd egwyl o ganlyniad i anogaeth grŵp y 'Criw Cymraeg' i annog pob disgybl i siarad Cymraeg, wrth iddynt arwain gemau yn yr ardal chwarae.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth aeddfed o bwysigrwydd bwyta'n iach a gwyddant beth y mae angen iddynt ei wneud i gadw'n heini ac yn iach. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu darparu gan yr ysgol ac mae ganddynt lais amlwg yng nghyfeiriad y grwpiau hyn, er enghraifft y clwb garddio a 'Workout Wednesday'. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion sy'n mynychu'r clybiau yn datblygu'u ffitrwydd, eu hyder, eu hunan-barch a'u medrau cymdeithasol yn dda iawn.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel iawn ar gyfer safonau ac ymddygiad disgyblion. Maent yn creu awyrgylch digynnwrf a pharchus ar gyfer dysgu. Yn gyffredinol, mae'r addysgu yn symud ar gyflymder da. Mae'r holl athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n hoelio sylw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac maent yn darparu lefel addas o her i ddisgyblion o bob gallu.

Mae staff yn y ddwy ganolfan adnoddau yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn derbyn cwricwlwm eang a chytbwys, gyda'r gallu i fynd i ddosbarthiadau prif ffrwd pan fo hynny'n briodol. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion hyn i ddatblygu a defnyddio'u

medrau cymdeithasol, emosiynol a'u medrau cyfathrebu yn dda mewn gweithgareddau yn yr ystafelloedd dosbarth ac yn yr amgylchedd dysgu awyr agored. Enghraifft dda o hyn yw eu gweithgareddau yn helpu i gynnal gardd gymunedol.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth pwrpasol i ddisgyblion, ar lafar, am ba mor dda y maent yn ei wneud yn ystod gweithgareddau ac maent yn eu hatgoffa'n ddefnyddiol er mwyn cadw'u dysgu ar y trywydd cywir. Mae hyn yn helpu disgyblion i gwblhau tasgau'n llwyddiannus ac i wella agweddau ar eu gwaith wrth fynd ymlaen. Mae athrawon yn defnyddio'r cynllun marcio a ddatblygwyd yn ddiweddar yn gyson dda i sicrhau dull ysgol gyfan o roi adborth o safon i ddisgyblion, sy'n eu galluogi i gamu ymlaen yn eu dysgu. Maent yn rhoi arweiniad ysgrifenedig clir ar yr hyn sy'n dda yng ngwaith eu disgyblion a'r hyn sydd angen ei wella. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a'u gwaith ei gilydd. O ganlyniad, mae disgyblion o bob oedran yn siarad yn wybodus am yr hyn sy'n dda am ei gwaith a'r hyn sydd angen ei wella. Mae athrawon yn sicrhau bod rôl amlwg gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wrth benderfynu ar y meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau llythrennedd. Mae hyn yn mwyhau eu diddordeb yn y tasgau ac yn hoelio'u sylw'n dda ar eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i ddatblygu cystal ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Mae bron pob un o'r staff yn defnyddio technegau holi yn dda i annog disgyblion i feddwl am eu dysgu a'i ymestyn. Mae cynorthwywyr addysgu'n rhoi cymorth gwerthfawr i grwpiau o ddisgyblion ac unigolion ar draws yr ystod gallu. Enghraifft nodedig o hyn yw'r grwpiau 'Buzz' sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl ymestyn eu dealltwriaeth o lythrennedd a rhifedd trwy dasgu heriol bob wythnos. Yn gyffredinol, mae staff yn fodelau da o iaith a chânt effaith gadarnhaol ar gywirdeb a safonau iaith disgyblion.

Mae'r holl staff yn deall egwyddorion y cyfnod sylfaen yn dda. Maent yn addysgu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn effeithiol ac yn rhoi cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddysgu trwy brofiadau ymarferol. Mae staff y cyfnod sylfaen yn darparu amgylchedd dysgu dan do ac awyr agored sydd wedi'i gynllunio'n dda, gan sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleoedd pwrpasol i ddefnyddio'r amgylchedd dysgu deniadol i ymarfer a datblygu'u medrau. Er enghraifft, mae disgyblion yn adeiladu gorsaf dân yn yr ardal awyr agored ac yn mesur ei dimensiynau mewn unedau safonol neu ansafonol, yn dibynnu ar eu hoedran a'u gallu.

Mae'r holl athrawon yn cynllunio pynciau ystyriol, sy'n ennyn diddordebau bron pob un o'r disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn darparu cwricwlwm sy'n sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i bob pwnc dros gyfnod. Maent yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd, cymhwysedd digidol a Chymraeg i safon dda ar draws y pynciau hyn. Fodd bynnag, nid yw cynllunio a chyflwyno medrau rhifedd wedi'u datblygu cystal. Mae athrawon yn mabwysiadu agwedd hyblyg at gynllunio, sy'n cyfrif yn dda am gwestiynau ac awgrymiadau disgyblion. Mae disgyblion yn awgrymu syniadau ar gyfer gweithgareddau ar ddechrau'r tymor ac maent yn myfyrio ar eu dysgu ac yn awgrymu cyfleoedd dysgu pellach yn ystod amser myfyrio wythnosol. Mae hyn yn golygu bod y disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o gysylltiad â'u gweithgareddau ystafell ddosbarth, sy'n cynorthwyo'r rhan fwyaf ohonynt i ddysgu'n gynhyrchiol a mwynhau eu dysgu.

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cwricwlwm cyfoes yn seiliedig ar themâu, sy'n mynd i'r afael â phedwar pwrpas craidd y cwricwlwm newydd yn dda. Er enghraifft, mae pob dosbarth yn defnyddio'r cwch hwylio mae'r ysgol wedi'i chaffael, er mwyn ysgogi'u dysgu. Mae'r thema'n cwmpasu pob agwedd ar y cwricwlwm, ac mae disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu prosiect newydd.

Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn ystyrlon, er enghraifft trwy'r eisteddfod ysgol, astudio gwaith artistiaid enwog o Gymru, ymchwil i dywysogion Cymru ac ymweliadau â Glan-llyn a Chaerdydd. Mae'r holl oedolion yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r disgyblion yn rheolaidd yn ystod y diwrnod ysgol, sy'n sicrhau bod gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda ac agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o fuddion bod yn ddwyieithog ac maent o'r farn bod y Gymraeg yn iaith fyw a defnyddiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu awyrgylch hynod ofalgar a chynhwysol lle mae'r holl staff yn helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu. Mae staff yn trin y disgyblion yn gyfartal ac yn cefnogi'u hanghenion personol ac emosiynol yn dda iawn, sy'n arwain yn llwyddiannus iawn at ethos sefydledig lle mae'r holl ddisgyblion yn gwybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu cyfraniadau'n gwneud gwahaniaeth. Mae cymorth ac arweiniad yr ysgol i bob disgybl yn hyrwyddo'u lles yn eithriadol o dda ac yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd rhagorol i ffynnu yn eu datblygiad academaidd, cymdeithasol, moesol ac emosiynol. Mae'r holl aelodau staff yn gweithio'n gydwybodol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Maent yn hynod effeithiol wrth weithredu a rhannu amrywiaeth eang o raglenni ymyrraeth priodol sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd cyson a chadarn iawn. Enghreifftiau nodedig yw'r sesiynau cymorth emosiynol a chymdeithasol arbennig o effeithiol sy'n cael eu darparu gan staff hyfforddedig o'r ysgol ac o asiantaethau allanol.

Un o gryfderau'r ysgol yw ei systemau hynod effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae uwch arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr addysgu yn monitro cynnydd pob grŵp o ddisgyblion yn drylwyr, gan gynnwys disgyblion sy'n fwy abl a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn academaidd ac yn gymdeithasol. Mae'r ysgol wedi dyfeisio systemau hynod ymatebol i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion yn gyflym. Mae staff yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth werthfawr i osod targedau cyflawnadwy i bob disgybl. Maent yn adolygu'r targedau hyn yn rheolaidd a, phan fydd cynnydd islaw'r hyn a ddisgwylir, maent yn darparu ymyriadau pellach yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf iawn ag amrywiaeth o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, fel y Gwasanaeth Allymestyn ar gyfer Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig ac athrawon cynhwysiant, i sicrhau adnoddau amserol, ychwanegol i gefnogi disgyblion ag amrywiaeth o anghenion. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod disgyblion targedig yn gwneud cynnydd cryf yn gysylltiedig â'u galluoedd. Mae uwch arweinwyr yn gweithio'n rheolaidd ac yn bwrpasol gyda'r brifysgol leol er mwyn defnyddio dulliau ymchwil cyfoes i ddylanwadu ar arferion yr ystafell ddosbarth ar draws yr ysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r gwaith a wnaed gan staff yr ysgol ac ymchwilwyr yn ystod y 'Rhaglen Parodrwydd i Ddysgu'. Mae

dadansoddiad o ddata'r canolfannau adnoddau bob hanner tymor yn dangos bod bron pob un o'r disgyblion wedi gwella'u medrau emosiynol a chymdeithasol dros gyfnod, wedi gostwng lefelau ymddygiad annerbyniol, a'u bod yn gallu canolbwyntio ar eu hymddygiad eu hunain mewn ffordd fwy cadarnhaol. Mae'r ysgol yn rhannu ei harfer gorau gyda'r holl staff fel bod y strategaethau hynod effeithiol yn dylanwadu ar bob dysgwr. Hefyd, mae'r ysgol yn rhannu'i harfer dda mewn cynadleddau consortia rhanbarthol, ysgolion yn y dalgylch a thu hwnt.

Mae gan yr ysgol berthnasoedd cryf iawn gyda rhieni. Mae cylchlythyr wythnosol yr ysgol yn rhoi gwybodaeth gyfredol a manwl i rieni am weithgareddau'r ysgol. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n helaeth am gynnydd eu plant. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau manwl ar gynnydd a nosweithiau rheolaidd i rieni, ynghyd â chynnig sesiynau galw heibio wythnosol, sesiynau un i un ar ymddygiad a sesiynau gwybodaeth benodol i helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plant gartref. Enghraifft nodedig o hyn yw trefnu bod y 'Bws Swyddi' yn ymweld â'r ysgol er mwyn i rieni gael cymorth ymarferol ar gyfer dod o hyd i waith. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddyheadau disgyblion a galluoedd rhieni i'w cefnogi'n well.

Mae'r staff yn cynnig llawer o gyfleoedd defnyddiol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a moesol disgyblion trwy wahanol grwpiau sy'n cynrychioli disgyblion. Er enghraifft, mae llysgenhadon awtistiaeth, timau gwrth-fwlio a llysgenhadon TGCh gweithgar yn yr ysgol. Caiff y rhain effaith gref iawn ar allu disgyblion i weithio gyda'i gilydd ac maent yn gwella parch y disgyblion tuag at farnau ei gilydd, mewn amgylchedd cynhwysol a gofalgar. Mae cwricwlwm eang a chytbwys yr ysgol, gwasanaethau ac ymweliadau allgyrsiol yn cefnogi datblygiad ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae grwpiau gwahanol o ddisgyblion yn arwain gwasanaethau dathlu rheolaidd sy'n hyrwyddo gwaith ac ymddygiad disgyblion, ac agweddau at ddysgu, yn ogystal â dathlu cyflawniadau yn yr ysgol a thu hwnt. Hefyd, mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd i bob disgybl berfformio o flaen rhieni, er enghraifft yn ystod cynyrchiadau ysgol gyfan neu wasanaethau'r Cynhaeaf a Dydd Gŵyl Dewi.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae disgyblion yn helpu i redeg siop fach, sy'n annog disgyblion i wneud penderfyniadau iach ar fwyd a diod. Mae staff yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau corfforol yn rheolaidd, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol sy'n helpu disgyblion i ddod yn heini a gweithgar. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth fedrus y pennaeth wedi llywio taith wella hynod effeithiol, ac mae lles yr holl ddisgyblion a staff yn ganolog i'r broses. Mae hi wedi sefydlu ethos clir i'r ysgol, sy'n cael ei gyfleu'n llwyddiannus i bob rhanddeiliad. Caiff ei chefnogi'n abl gan ddirprwy cydwybodol ac ymroddgar, ac uwch dîm arwain cryf. Mae'r holl staff yn rhannu'u disgwyliadau uchel a'u gwerthoedd proffesiynol a, chyda'i gilydd, maent wedi datblygu'n dîm hynod lwyddiannus sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant dysgu cynhwysol yr ysgol yn bwrpasol. Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu polisïau defnyddiol sy'n effeithio'n gadarnhaol iawn ar arferion bob dydd, fel polisi staff canolfan adnoddau'r cyfnod sylfaen ar yr ystafell ymdawelu. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'n glir sut i ddefnyddio'r strategaethau ymdawelu gyda phob disgybl ac, ochr

yn ochr â'r polisi gwrth-fwlio hynod effeithiol sydd wedi'i arwain gan y disgyblion, mae wedi helpu i ostwng tensiynau a gwella ymddygiad ymhlith lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr ysgol yn gwneud defnydd hynod effeithiol o wybodaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau gwersi a gwrando ar ddysgwyr, i werthuso perfformiad presennol. Mae staff yn defnyddio systemau olrhain cynhwysfawr yr ysgol yn ddiwyd i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd da. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn gywir er mwyn llywio cynllunio ar gyfer gwella. Mae athrawon arweiniol ar gyfer meysydd dysgu yn cydweithredu ag uwch arweinwyr i greu cynlluniau gwella clir a chryno sydd ag adnoddau priodol ac sy'n cael eu monitro'n effeithiol er mwyn ysgogi gwelliant. Er enghraifft, mae datblygu cwricwlwm creadigol sy'n canolbwyntio ar barodrwydd disgyblion i ddysgu a phedwar pwrpas y cwricwlwm newydd yn cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion â dysgu a'u hunanhyder i ddysgu. Mae staff yn y ddwy ganolfan adnoddau yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o adnoddau ac arbenigwyr allanol i ymestyn y ddarpariaeth i'r disgyblion. Er enghraifft, mae gweithio mewn partneriaeth â staff i roi rhaglen adeiladu blociau, seiliedig ar dechnoleg, ar waith yn llwyddo i wella gallu disgyblion i weithio gyda'i gilydd, cyfathrebu'n fwy effeithiol a datblygu'u medrau dychmygus a chreadigol.

Mae darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff yn nodwedd eithriadol o'r ysgol. Mae'r pennaeth yn adeiladu gallu arwain y staff ar bob lefel yn llwyddiannus. Mae gan yr holl aelodau staff rolau a chyfrifoldebau clir ac mae staff cymorth hyfforddedig iawn yn arwain amrywiaeth eang o raglenni ymyrraeth effeithiol iawn, fel ymyriadau i gynorthwyo disgyblion i ddeall a rheoli eu hemosiynau eu hunain, a chymorth anogaeth. Mae staff yn rhannu arfer ragorol ar bob lefel yn yr ysgol a, hefyd, i gynorthwyo athrawon ac arweinwyr mewn ysgolion eraill i wella perfformiad. Mae trefniadau effeithiol ar waith i reoli perfformiad staff, wedi'u cysylltu'n addas â blaenoriaethau'r ysgol, a hyfforddiant a chymorth perthnasol.

Mae staff yn y ddwy ganolfan adnoddau'n cael hyfforddiant effeithiol i wella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch sut i fodloni anghenion eu disgyblion. Cryfder arbennig yw'r bartneriaeth rhwng y canolfannau adnoddau a phrifysgol ac ysgol arbennig leol i amlygu strategaethau effeithiol sy'n gwella medrau emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Mae hyn yn cynorthwyo'r disgyblion yn effeithiol i wella'u hymddygiad, ymhél â dysgu'n dda a gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o waith yr ysgol. Mae llawer o'r llywodraethwyr yn ymwelwyr rheolaidd â'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o arferion a heriau dydd i ddydd. Mae ganddynt ddealltwriaeth sicr iawn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, a defnyddiant wybodaeth o amrywiaeth o weithgareddau, fel teithiau dysgu a dadansoddi data, i herio arweinwyr yn addas.

Mae uwch arweinwyr yn datblygu rolau disgyblion fel arweinwyr yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r Criw Cymraeg yn gwneud cyfraniad pwrpasol at hyrwyddo ethos Cymreig yr ysgol ac annog y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Hefyd, mae llysgenhadon yr ysgol wedi gwella'r amgylchedd chwarae ar sail Hawliau'r Cenhedloedd Unedig i Blant ymlacio a chwarae.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n dda iawn ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel cyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol a lleihau effaith negyddol tlodi ar safonau a lles disgyblion. Mae'r holl athrawon yn sicrhau bod cynllunio'r cwricwlwm yn cwmpasu'r pedwar diben a'r meysydd dysgu a phrofiadau, trwy brosiectau creadigol fel prosiect arloesol y cwch gyda chysylltiadau â'r clwb hwylio lleol. Mae rôl y pennaeth fel cydymaith i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a grëwyd yn ddiweddar yn sicrhau bod yr ysgol yn wybodus ac yn gweithredu ar ddatblygiadau cenedlaethol presennol. Mae'r ffocws clir ar ddatblygu Siarter y Gymraeg hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd y disgyblion o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o gwmpas yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn dda iawn ac yn sicrhau bod yr ysgol wedi'i staffio'n briodol, gyda lefel dda o adnoddau i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y dysgwyr sy'n mynychu'r ddwy ganolfan adnoddau hynod effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau cyllid ychwanegol trwy grantiau yn llwyddiannus iawn hefyd. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi derbyn arian grant i ddatblygu ardaloedd awyr agored y cyfnod sylfaen ymhellach ac i brynu bws mini er mwyn manteisio ar gyfleoedd dysgu oddi ar y campws i grwpiau o ddisgyblion. Hefyd, mae arweinwyr ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol iawn i gefnogi cynnydd a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn teilwra'r defnydd ar y grant hwn yn bwrpasol i fodloni anghenion unigol disgyblion, er enghraifft i ddarparu cymorth anogaeth i ddisgyblion agored i niwed ac i sicrhau bod cyfleoedd o ansawdd uchel ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd. Mae arweinwyr a staff yn defnyddio'r holl le sydd ar gael, y tu allan a'r tu mewn, yn dda er mwyn cefnogi dysgu a lles disgyblion ac maent wedi creu amgylchedd dysgu ysgogol lle y mae athrawon eisiau addysgu ac mae disgyblion eisiau dysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  18/03/2019